

Alison Bulman
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
LD1 5LG

Dyddiad: 03 Awst 2020

Annwyl Alison Bulman,

Adolygiad Arolygiaeth Gofal Cymru o Berfformiad Awdurdodau Lleol Ebrill 2019 – Mawrth 2020

Mae'r cod ymarfer ar gyfer adolygu gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, yn amlinellu ein bwriad i ysgrifennu a chyhoeddi llythyr blynyddol i awdurdodau lleol a fydd yn:

- rhoi adborth ar weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad a gwblhawyd gennym yn ystod y flwyddyn
- adrodd ar y cynnydd y mae'r awdurdod lleol wedi'i wneud o ran gweithredu argymhellion arolygiadau a/neu adolygiad ymarfer plant ac oedolion
- amlinellu ein blaenraglen waith

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi ein hadolygiad o berfformiad Cyngor Sir Powys wrth gyflawni ei swyddogaethau statudol o ran gwasanaethau cymdeithasol rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020.

Rydym yn cydnabod nad oedd modd i ni gwblhau'r cyfarfod adolygu perfformiad blynyddol o ganlyniad i'r amgylchiadau digynsail sy'n gysylltiedig â COVID-19.

Credwn fod buddion sylweddol o hyd o ran nodi a thynnu sylw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid at y meysydd o cryfderau ac gwelliannau sy'n ofynnol. Bwriad y llythyr yw cynorthwyo'r awdurdod lleol a'i bartneriaid i wella'n barhaol.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
www.arolygiaethgofal.cymru

☎ 0300 790 0126
☎ 0872 437 7303
✉ CIW@gov.wales

Care Inspectorate Wales (CIW)
Welsh Government Office
Sarn Mynach
Llandudno Junction
LL31 9RZ
www.careinspectorate.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'n dilyn pedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r ffordd rydym yn cefnogi gwelliant; dull sy'n gynyddol gydweithredol ac yn seiliedig ar gryfderau.

Gwnaethom ymgymryd ag arolygiad o wasanaethau oedolion ym mis Ionawr 2018 ac adolygiad dilynol o wasanaethau plant ym mis Hydref 2018. Oherwydd y pryderon difrifol/sylweddol a godwyd o'r arolygon hyn, mae AGC wedi cadw Cyngor Sir Powys o dan drefniadau monitro ffurfiol. Caiff cynnwys y llythyr hwn ei lywio gan ganfyddiadau ein gweithgareddau monitro a'n gweithgareddau gwerthuso perfformiad eraill a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn:

- gweithgarwch monitro – gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth – gwasanaethau oedolion – Mai 2019
- gweithgarwch monitro – cymorth i'r rhai sy'n gadael gofal – gwasanaethau plant – Mehefin 2019
- gweithgarwch monitro – gofal a chymorth – gwasanaethau oedolion – Medi 2019
- gweithgarwch monitro – rheoli achosion plant sy'n rhan o achosion (cyn) gofal – Tachwedd 2019
- cyfarfod i drafod hunanwerthusiad yr ALI ar hybu annibyniaeth i bobl hŷn – Tachwedd 2019
- gweithgarwch monitro – ailalluogi – gwasanaethau oedolion – Ionawr 2020
- arolygiad ar y cyd o Dîm Iechyd Meddwl Cymunedol Y Drenewydd – Chwefror 2020
- deg cyfarfod â phenaethiaid gwasanaethau
- cyfarfod adolygu sicrwydd dros dro – gwasanaethau oedolion – Mawrth 2020

Gwnaethom gytuno i ohirio'r gynhadledd gwelliant amlasiantaethol a oedd wedi'i chynllunio oherwydd bod angen i uwch-reolwyr ganolbwyntio ar yr ymateb i COVID-19. Rhoddodd y adolygiad sicrwydd dros dro y cyfle i uwch-reolwyr ein gwneud yn ymwybodol o'r cynnydd a wnaed mewn gwasanaethau oedolion ac i AGC gael gwybod am unrhyw feysydd pryder sylweddol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi bod yn cynnal trafodaethau â chi wrth i'r holl weithgareddau a restrir uchod fynd rhagddynt, ac mae ein llythyr perfformiad blynyddol yn adlewyrchu ein canfyddiadau parhaus a rennir â chi.

Crynodeb o gryfderau a meysydd i'w gwella yn unol ag egwyddorion Deddf 2014

Llesiant

Bu datblygiadau a gwelliannau sylweddol ym maes llywodraethu corfforaethol yng Nghyngor Sir Powys yn ystod 2019, yn dilyn penodi prif weithredwr parhaol ac uwch-aelodau o staff allweddol. Caiff aelodau etholedig eu hysbysu drwy weithdrefnau cyngor gwell, gwybodaeth well am berfformiad a gweithrediad y Bwrdd Gwella a Sicrwydd. Mae tîm uwch reoli sefydlog ym maes gwasanaethau cymdeithasol, ac mae'r pennaeth gwasanaethau oedolion wedi bod yn y swydd am flwyddyn.

Amlinellodd uwch-reolwyr welliannau sylweddol o ran capasiti mewn gofal cartref yn y cyfarfod adolygu sicrwydd dros dro. Mae'r rhain yn ddatblygiadau diweddar, oherwydd dangosodd gwaith monitro drwy gydol y flwyddyn bod rhai ardaloedd anodd eu cwmpasu ym Mhowys, gyda diffyg sylweddol mewn capasiti. Tynnodd nifer o asiantaethau yn ôl o'r

awdurdod lleol, er bod uwch-reolwyr yn honni nad oedd hyn oherwydd diffygion mewn capasiti, oherwydd gwnaethant ddweud wrthym eu bod wedi ailgyflenwi'r pecynnau gofal hyn. Nid oedd rhai pobl yn cael y gofal yr oedd ei angen arnynt mewn ffordd amserol. Roedd rhai pobl yn wynebu oedi wrth adael yr ysbyty neu'n symud i gartref gofal oherwydd y diffyg gofal cartref. Ymgwymerodd uwch-reolwyr â nifer o fentrau er mwyn cynyddu capasiti yn y farchnad, ac rydym yn deall bod y gwelliant presennol oherwydd effaith gronol y rhain.

Yn hanesyddol, roedd niferoedd mawr o oedolion ym Mhowys nad oeddent yn cael adolygiad o'u cynllun gofal a chymorth o fewn yr amserlen ofynnol o 12 mis. Trafodwyd hyn sawl gwaith â Phennaeth y Gwasanaeth a ddisgrifiodd ymdrechion sylweddol gan ymarferwyr i fynd i'r afael â hyn drwy'r flwyddyn. Rydym ar ddeall bod y cyngor wedi mynd i'r afael â'r ôl-groniad hwn yn effeithiol ac mae gan uwch-reolwyr gynlluniau ar gyfer rheoli a goruchwyllo'r broses hon yn barhaus er mwyn osgoi achosion o oedi yn y dyfodol. Yn ddiweddar iawn, mae'r awdurdod lleol wedi cwestiynu ei ffigurau ei hun ac mae wedi datblygu adroddiad data newydd ar amseroldeb.

Roedd angen gwneud gwelliannau sylweddol i'r ffordd roedd Cyngor Sir Powys yn cefnogi pobl ifanc sy'n gadael y system ofal. Pan wnaethom ymgymryd â gweithgarwch monitro ym mis Mehefin 2019, gwelsom waith yn seiliedig ar gydberthnasau, strwythur newydd a mwy o gymorth gan reolwyr i gynghorwyr personol. Roedd eglurder a manylder mewn gwaith cynllunio llwybrau yn parhau i fod yn faes i'w wella. Gall pob person ifanc sy'n gadael gofal gael cymorth hyd at 25 oed ac roedd rhywfaint o gynnydd wedi cael ei wneud o ran datblygu opsiynau llety a chyfluoedd prentisiaeth / hyfforddeiaeth.

Mae uwch-reolwyr yn parhau i adolygu ansawdd a digonolrwydd lleoliadau ar gyfer plant sydd wedi bod mewn gofal ac rydym yn cydnabod bod hyn yn her i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Ym mis Chwefror 2020, cafodd traean o blant eu lleoli y tu allan i Gyngor Sir Powys. Mae gan yr awdurdod lleol gynlluniau i gynyddu ei lety cartrefi gofal i blant ei hun. Mae uwch-reolwyr wedi rhoi nifer bach o bobl ifanc mewn lleoliadau gofal heb eu rheoleiddio yn ystod y flwyddyn, pan gododd heriau penodol.

Nodwyd gwelliannau ym mis Tachwedd 2019 pan wnaethom ymgymryd â gweithgarwch i fonitro gwaith rheoli achosion a gwneud penderfyniadau i blant sy'n destun yr amlinellad cyfraith gyhoeddus. Gwelsom lefel newydd o strwythur a goruchwyliaeth, gan gynnwys cyfarfodydd olrhain cyfreithiol wythnosol. Roedd swyddogaeth goruchwyliaeth ac uwchgyfeirio y swyddog adolygu annibynnol wedi cael ei chryfhau, yn rhannol oherwydd swydd rheolwr newydd.

Mae gwasanaethau plant wedi mabwysiadu model gwaith cymdeithasol penodol sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf 2014. Nid ydym wedi gwerthuso effaith hyn oherwydd argyfwng COVID-19. Rydym yn ymwybodol o hyfforddiant a gafwyd a'r gwaith cynllunio strategol ar gyfer cyflwyno'r model hwn.

Mae fframweithiau sicrhau ansawdd wedi datblygu ar draws gwasanaethau oedolion a phlant. Er nad yw targedau ar gyfer archwiliadau ffeiliau achos misol bob amser yn cael eu cyrraedd, mae sicrhau ansawdd yn parhau i fod yn faes o welliant sylweddol. Mae Cyngor Sir Powys wedi parhau i ddatblygu ei amrywiaeth o wybodaeth am berfformiad sy'n llywio'r gwaith o wneud penderfyniadau unigol, gweithredol a strategol. Mae Cyngor Sir Powys ar flaen y gad o gymharu ag awdurdodau lleol Cymru o ran yr amrywiaeth o drefniadau rheoli perfformiad sydd ar gael.

Yn flaenorol, rydym wedi nodi diffygion sylweddol mewn systemau a phrosesau amlasiantaethol i ddiogelu pobl ifanc sydd mewn perygl o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Rydym yn ymwybodol o ymrwymiad uwch-reolwyr i fynd i'r afael â'r materion hyn a'r anawsterau wrth recriwtio i swydd allweddol. Penodwyd rheolwr tîm diogelu newydd a chawn sicrwydd bod mwy o drylwyrdd wrth oruchwylio cymorth diogelu i blant sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol, y byddwn yn ei adolygu mewn gweithgarwch yn y dyfodol.

Pobl

Mae Cyngor Sir Powys wedi tynnu cap ar y swm uchaf y gellir ei dalu am ofal drwy daliadau uniongyrchol. Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i archwilio dewis a rheolaeth gydag unigolion fel opsiwn cyntaf er mwyn cyflawni canlyniadau ystyrlon. Gall pobl hefyd ddewis gwasanaethau a gomisiynwyd ac mae capasiti gofal cartref annigonol mewn rhannau o'r sir wedi effeithio ar y dewis hwn weithiau.

Mae recriwtio yn parhau i fod yn her i Gyngor Sir Powys, yn enwedig mewn gwasanaethau plant. Rydym yn ymwybodol o ymdrechion sylweddol i recriwtio a chadw staff, gan gynnwys cymhellion ariannol, a chynlluniau i archwilio recriwtio yn rhyngwladol. Mae rhai swyddi newydd ac arloesol wedi cael eu llenwi, ac mae hyn wedi dod â chapasiti a chymorth arbenigol i ymarferwyr.

Rydym wedi gweld tystiolaeth o effaith hyfforddiant i gysoni ymarfer ag egwyddorion Deddf 2014 mewn gwasanaethau plant ac oedolion. Yn gyffredinol, gwelsom fod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch gan ymarferwyr gofal cymdeithasol. Roedd yr asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn seiliedig ar gryfderau ac yn nodi canlyniadau personol yn gwell.

Rydym yn parhau i fonitro gweithrediad Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid sydd wedi nodi nad yw'r awdurdod lleol, yn yr un modd a llawer o rai eraill yng Nghymru, yn gallu bod yn sicr nad yw hawliau dynol pobl yn cael eu torri drwy gael eu hamddifadu o ryddid yn anghyfreithlon. Rydym ar ddeall bod yr awdurdod lleol wedi cynnal archwiliad mewnol ac wedi datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i hyn. Byddwn yn cyhoeddi ein cyd-adroddiad cenedlaethol ar y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid maes o law.

Atal

Nododd yr arolygiad o wasanaethau oedolion yn 2018 fod y 'drws ffrynt' yn perfformio'n wael iawn. Yn ystod ein hymweliad ym mis Mai 2019, gwelwyd fod y gwasanaeth wedi'i ailfodelu a'i wella, er bod gwelliannau pellach i'w gwneud. Ym mis Mawrth 2020, cawsom ein hysbysu am ddatblygiadau pellach. Mae'n llawer mwy tebygol y caiff galwadau ffôn eu hateb mewn amser rhesymol. Mae buddsoddi mewn hyfforddiant staff ac adnoddau staff ychwanegol yn golygu bod asesiadau cymesur yn cael eu cynnal ac y gellir helpu llawer mwy o bobl gyda galwad ffôn unigol. Darparwyd tystiolaeth o amseroldeb gwell wrth ddyrannu i dimau oedolion.

Pan wnaethom fonitro'r gwasanaeth ailalluogi ym mis Ionawr 2020, gwelsom fod asesiadau yn dangos dealltwriaeth dda o'r person ac roedd cynlluniau gofal a chymorth yn cael eu hadolygu i adlewyrchu anghenion newidiol.

Roedd gwasanaethau cymorth cynnar i blant yn annigonol ac yn aneffeithiol nes iddynt gael eu hailfodelu yn sylweddol yn 2019. Mae gwasanaeth Cymorth Cynnar a gwasanaeth ymyrryd ac atal ymroddedig bellach er mwyn rhoi cymorth uniongyrchol i deuluoedd, sy'n

cynnwys gwasanaeth ymylon gofal. Mae hyn wedi bod yn fuddsoddiad sylweddol i Gyngor Sir Powys, sy'n sicrhau ei fod yn cyd-fynd ag awdurdodau lleol eraill ac egwyddorion Deddf 2014. Gwnaethom ohirio ein cynllun i werthuso'r gwasanaethau hyn ym mis Ebrill oherwydd argyfwng COVID-19.

Yn ystod 2018, roedd ein rhaglen waith genedlaethol yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae'r [adroddiad](#) ar gael ar ein gwefan. Mae'r meysydd allweddol a nodwyd i'w gwella yn cynnwys proffil, digonolrwydd, ymarfer, partneriaethau, sefydlogrwydd, llywodraethu a rhianta corfforaethol. Mae meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn parhau i gael eu hystyried gan Grŵp Cyngori'r Gweinidog Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal, ac rydym hefyd yn gobeithio y bydd awdurdodau lleol yn ystyried eu cyfraniad eu hunain at fynd i'r afael â'r canfyddiadau hyn.

Ym mis Rhagfyr 2019, gwnaethom ysgrifennu at bob awdurdod lleol yn gofyn am wybodaeth am adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn sgil ei ymchwiliad i blant sydd wedi cael profiad o ofal, yn benodol argymhelliad 5 sy'n ymwneud ag effeithiolrwydd ac amllder adolygiadau diwedd lleoliad. Roedd yr ymateb gan Gyngor Sir Powys yn dangos ei fod yn adolygu ei bolisi cyfarfod tarfu er mwyn ymgorffori'r defnydd o adolygiadau tarfu. Dywedodd yr awdurdod lleol wrthym nad oedd yn casglu data ar leoliadau sy'n methu yn rheolaidd ac nid oedd ganddo broses sefydledig ar gyfer dysgu o'r rhain. Roedd bwriad i werthuso effeithiolrwydd adolygiadau tarfu wrth atal lleoliadau rhag methu.

Mae'r awdurdod lleol bellach yn llunio data misol ar symud lleoliadau, a adolygir gan uwch-reolwyr a'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol. Cawsom ein hysbysu bod y Polisi Tarfu diwygiedig yn galw cyfarfod ar ôl i leoliad ddod i ben yn annisgwyl. Bydd y Swyddog Adolygu Annibynnol yn cadeirio Cyfarfod Sefydlogrwydd pan fydd ansefydlogrwydd mewn lleoliad.

Partneriaethau

Mae uwch-reolwyr yng Nghyngor Sir Powys bellach yn cymryd rhan mwy gweithredol yn y bwrdd diogelu rhanbarthol. Mae mwy o gydweithio rhwng yr awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys.

Roedd uwch-reolwyr wedi cydnabod ers peth amser bod angen gwella trefniadau rhyddhau a gwasanaethau ailalluogi. Gwnaethom ymgymryd â gwaith monitro ym mis Ionawr 2020, a nodwyd arwyddion o drefniadau gwell ar gyfer llwybrau cleifion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Ym mis Mawrth 2020, cawsom sicrwydd gan uwch-reolwyr fod y trefniadau newydd hyn yn cael eu hymgorffori a bod cyfarfodydd llif cleifion perthnasol ar waith. Roedd y rhain yn welliannau amserol o ystyried argyfwng COVID-19. Cawsom sicrwydd bod rhyddhau cleifion o ysbytai cymunedol yn cael ei ystyried ar y cam cynharaf posibl. Roedd achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal wedi lleihau yn sylweddol.

Mewn gwasanaethau plant, gwnaethom nodi gwelliannau o ran mynediad y rhai sy'n gadael gofal i dai, a oedd wedi dod â'r gofyniad blaenorol i ben, sef bod plant sydd wedi bod mewn gofal yn cyflwyno eu hunain fel pobl ddigartref. Byddwn yn ceisio sicrwydd bod Cyngor Sir Powys yn parhau i gyflawni ei ddyletswyddau fel rhiant corfforaethol yn hyn o beth.

Cynllun Adolygu Perfformiad AGC ar gyfer 2020-2021

Roedd ein rhaglen arolygu thematig ar gyfer 2019-2020 yn canolbwyntio ar waith atal a hybu annibyniaeth i bobl hŷn. Ar gyfer yr arolygiad thematig presennol o wasanaethau plant, mae'r ffocws ar atal, partneriaethau a phrofiadau plant anabl. O ganlyniad i'r argyfwng presennol sy'n gysylltiedig â COVID-19, rydym wedi gohirio cyhoeddi ein hadroddiad ar wasanaethau pobl hŷn ac wedi gohirio'r holl weithgareddau sy'n ymwneud â'r adolygiad o gymorth i blant anabl. Byddwn yn rhoi gwybod i chi maes o law pryd rydym yn rhagweld y byddwn yn ailgychwyn ar ein harolygiadau.

Rydym yn gobeithio cyhoeddi'r adroddiad cenedlaethol ar wasanaethau pobl hŷn maes o law, a hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi am gyfraniad eich awdurdod lleol at hyn.

O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn nad oedd modd eu rhagweld, rydym wrthi'n adolygu ac yn ystyried ein cynllun gwaith ar gyfer gweddill 2020-2021.

Cydweithiodd AGC ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ac Estyn i ddatblygu model ar gyfer arolygiad ar y cyd o drefniadau amddiffyn plant yng Nghymru. Cafodd y dull gweithredu hwn ei dreialu yn ystod hydref 2019. Roedd hyn yn enghraifft wych o ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, gan gynnig ymdrech wirioneddol i sicrhau cydweithio ac integreiddio mewn gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i gefnogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Sylwer bod copi o'r llythyr hwn wedi cael ei anfon at gydweithwyr yn Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) hefyd. Mae AGC yn gweithio'n agos gydag arolygiaethau partner i ystyried y safbwynt corfforaethol ehangach y mae gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio ynddo, ynghyd â'r cyd-destun lleol ar gyfer perfformiad gwasanaethau cymdeithasol.

Byddwn yn cyhoeddi fersiwn derfynol y llythyr hwn ar ein gwefan.

Yn gywir,



Lou Bushell-Bauers
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol

Cc.
Archwilio Cymru
AGIC
Estyn